Rhagoriaeth i bawb ~ Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gymuned y Ffridd
# Gwalchmai
# Caergybi
# Ynys Mon
# LL65 4SG

## Dyddiad yr arolygiad: Ionawr 2012

## gan

## Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**

**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**

**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol yr ysgol a'i rhagolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| Barn | Yr hyn mae'r farn yn ei olygu |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW

neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2012: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

## Cyd-destun

Ysgol naturiol ddwyieithog, gymunedol o dan ofal awdurdod lleol Ynys Môn yw Ysgol y Ffridd. Mae wedi ei lleoli yng nghanol pentref gwledig Gwalchmai. Mae'r ysgol yn gwasanaethu'r pentref a'r ardal o'i chwmpas. Yn ôl nifer o ddangosyddion, mae'r ardal yn un ddi-freintiedig.

Mae 79 o ddisgyblion rhwng 3 ac 11 oed ar gofrestr yr ysgol ac mae tri dosbarth ar gyfer disgyblion oed addysg statudol, ynghyd â dosbarth meithrin. Derbynnir disgyblion i'r ysgol yn rhan amser ym Medi yn dilyn eu penblwydd yn dair oed

Mae llawer o'r disgyblion yn cyrraedd yr ysgol gyda chyflawniad islaw yr hyn sy'n ddisgwyliedig. Mae gan 32% o'r disgyblion hawl i dderbyn prydau ysgol am ddim , sy'n arwyddocaol uwch na'r cyfartaledd sirol a chenedlaethol. Mae gan 28% o'r disgyblion anghenion dysgu ychwanegol , ac o gwmpas 5% ddatganiad o anghenion addysgol arbennig. Mae 97% o'r disgyblion o gefndir ethnig gwyn. Mae tri disgybl yn dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol ac mae'r Awdurdod Lleol yn gofalu am bum disgybl.

Daw tua 82% o'r disgyblion o gartrefi lle siaredir y Gymraeg ond erbyn hyn mae 92% yn siarad Cymraeg yn rhugl. Mae pob disgybl yn dilyn cwrs Cymraeg Mamiaith. Defnyddir y Gymraeg yn gyfrwng addysgu hyd at Blwyddyn 2 ac yn dilyn hynny defnyddir y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfryngau addysgu.

Arolygwyd yr ysgol yn ystod tymor y Gwanwyn 2006. Penodwyd y pennaeth presennol i'w swydd ym Medi 2011.

Y gyllideb ysgol unigol yn 2011-2012 fesul disgybl ar gyfer Ysgol Gymuned y Ffridd yw £3,723. Yr uchafswm fesul disgybl yn ysgolion cynradd Ynys Môn yw £6,563 a'r isafswm yw £2,636. Mae Ysgol Gymuned y Ffridd yn 21ain allan o'r 50 o ysgolion cynradd yn Ynys Môn mewn telerau cyllideb ysgol fesul disgybl.

## Crynodeb

| | |
|---|---|
| **Perfformiad presennol yr ysgol** | **Da** |
| **Rhagolygon gwella'r ysgol** | **Da** |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad cyfredol Ysgol y Ffridd yn dda oherwydd:

- bod deilliannau diwedd cyfnod allweddol a safonau yn y dosbarth yn gyffredinol dda;
- bod gofal ar gyfer disgyblion a'r trefniadau ar gyfer eu lles yn dda;
- bod rhan fwyaf yr addysgu yn dda; a
- bod y pennaeth a llywodraethwyr yr ysgol yn rhoi arweiniad cadarn

### Rhagolygon gwella

Mae rhagolygon gwella'r ysgol yn dda oherwydd:

- bod gan bennaeth a llywodraethwyr yr ysgol ddisgwyliadau uchel parthed symud yr ysgol ymlaen;
- bod gan y staff a'r llywodraethwyr ymwybyddiaeth dda o gryfderau'r ysgol a'r agweddau sydd angen eu gwella;
- bod yr holl staff yn barod i ymateb i'r her o godi safonau; a
- bod y staff yn adnabod anghenion a chefndir y dysgwyr yn dda ac yn ymateb iddynt yn briodol.

## Argymhellion

Er mwyn gwella'r ysgol, mae angen:

A1 codi safonau darllen yng nghyfnod allweddol 2;

A2 sicrhau cysondeb yn ansawdd yr addysgu ac asesu ar gyfer dysgu ar draws yr ysgol; ac

A3 ehangu nifer y cymunedau dysgu er mwyn hyrwyddo arfer orau a sicrhau bod yr arfaniad ohonynt yn ddigon miniog i godi safonau.

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau? | Da |
|---|---|

**Safonau: Da**

Mae canlyniadau'r ysgol hon rhwng 2008 a 2011 yn gyffredinol dda yn y ddau gyfnod allweddol pan gânt eu cymharu gyda chanlyniadau asesiadau ysgolion tebyg o safbwynt canran y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim. Yn ogystal, mae'r canlyniadau yn cymharu'n ffafriol iawn gyda deilliannau diwedd cyfnod allweddol ysgolion sydd yn perthyn i'r un 'teulu'.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni un lefel yn uwch na'r lefel disgwyliedig yn aml yn uwch na chyfartaledd y teulu.

Mae bechgyn yn perfformio cystal â merched. Nid oes fawr o wahaniaeth i'w weld yn eu cyflawniad yn y dosbarthiadau nac yn eu deilliannau diwedd cyfnod allweddol. Nid yw disgyblion sydd yn derbyn pryd am ddim yn cyflawni llawn cystal â disgyblion sy'n talu am eu prydau. Mae rhan fwyaf y disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cyflawni'n dda.

Mae'r disgyblion o bob oed a gallu yn gwneud cynnydd da mewn safonau pynciol a bron pob medr. Mae safonau llafaredd yn dda yn y Gymraeg a'r Saesneg. Mae safonau ysgrifennu'n dda ar draws yr ysgol. Ysgrifennant yn estynedig ac yn ddiddorol mewn ystod o gyweiriau gwahanol mewn nifer dda o bynciau. Er bod mân wallau yn y Saesneg a'r Gymraeg, mae'r cynnwys yn ddiddorol ac mae llawysgrifen yn dda.

Mae safonau darllen yn dda yn y Cyfnod Sylfaen. Yn y Gymraeg, mae'r plant yn darllen yn ystyrlon ar goedd, yn dehongli'r testun ac yn ei egluro'n dda. Digonol yw safonau darllen yng nghyfnod allweddol 2. Er bod y disgyblion galluocaf yn gallu darllen gyda mynegiant yn y ddwy iaith, mae'r mwyafrif yn cael trafferth i ddarllen ac i egluro testun anghyfarwydd.

Mae safonau yn y Gymraeg (Mamiaith) yn gyffredinol dda. Y Gymraeg yw iaith naturiol cyfathrebu bron bob un o'r disgyblion ar lafar. Mae'r safonau da yn adlewyrchu natur ddwyieithog yr ardal ac ethos cryf Cymraeg a Chymreig yr ysgol.

**Lles: Da**

Mae pob disgybl yn teimlo'n ddiogel iawn a hapus yn yr ysgol ac yn gwybod at bwy i droi am gymorth a chyngor. Mae'r holl ddisgyblion yn hynod gwrtais, yn cydweithio'n effeithiol ac yn ymddwyn yn arbennig o dda. O ganlyniad, mae datblygiad personol, cymdeithasol a diwylliannol bron pob plentyn yn dda.

Mae gan bob plentyn ymwybyddiaeth briodol o'r angen i gadw'n heini ac i fwyta'n iach. Manteisia llawer o'r disgyblion ar weithgareddau ffitrwydd, chwaraeon a chlybiau ar ôl ysgol.

Mae bron bob un o'r disgyblion yn ymwybodol o'u targedau personol ac yn gweithredu arnynt er mwyn gwella safonau gwaith.

Mae'r holl ddisgyblion yn elwa o gyswllt gyda sefydliadau ac unigolion yn y gymuned er mwyn atgyfnerthu eu gwybodaeth o'r adral leol, a meithrin medrau cymdeithasol a medrau bywyd o safon dda.

Mae lefelau presenoldeb y plant a'r disgyblion yn dda ac yn cymharu'n ffafriol iawn â lefelau presenoldeb ysgolion tebyg. Mae prydlondeb hefyd yn dda.

Cyfranna'r Cyngor Ysgol yn bwrpasol iawn i brosesau gwneud penderfyniadau o fewn yr ysgol. Mae aelodau'r cyngor yn creu eu cynllun datblygu eu hunain gan nodi eu blaenoriaethau fel cyngor ac yn ymwybodol iawn o faterion sy'n ymwneud â'r amgylchfyd.

| **Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Da**

Darpara'r ysgol ystod eang a chytbwys o brofiadau sy'n ymateb yn dda i anghenion y disgyblion. Mae'r cynllunio yn rhoi sylw dyledus i ddatblygu sgiliau. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cael nifer o brofiadau pwrpasol sy'n cael effaith gadarnhaol ar safonau. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau meddwl a datrys problemau yn gryfder ac yn hybu annibyniaeth y disgyblion i raddau helaeth.

Mae'r Cwricwlwm Cymreig yn gryfder yn yr ysgol. Yn ogystal â phrofiadau yn ystod gwersi arferol, cyfoethogir y ddarpariaeth gan ymweliadau lleol a gan ymwelwyr i'r ysgol. Mae hyn oll yn ennyn a datblygu diddordeb a dealltwriaeth y disgyblion o'u hetifeddiaeth. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg hefyd yn gryfder ar draws yr ysgol.

Caiff y ddarpariaeth ar gyfer dinasyddiaeth fyd eang sylw priodol o fewn yr ysgol ac mae'r cysylltiadau ag Ysgol yr Hendre ym Mhatagonia yn hyrwyddo gwybodaeth y disgyblion o'r agwedd hon yn effeithiol. Cyfoethogir y ddarpariaeth ar gyfer cynaliadwyedd yn dda trwy brosiectau yn ymwneud ag 'Ysgolion Gwyrdd' ac 'Ysgolion Iach'.

**Addysgu: Da**

Mae ansawdd yr addysgu'n dda yn y rhan fwyaf o wersi; mae'n ddigonol yn y gweddill. Mae gan yr athrawon ac oedolion eraill wybodaeth bynciol hyfedr a, bron yn ddieithriad, mae eu disgwyliadau yn uchel o safbwynt safonau ac ymddygiad. Mae cymorthyddion sy'n cefnogi grwpiau penodol o ddisgyblion neu unigolion yn cyfrannu'n dda i'r dysgu. Caiff gwersi unigol eu cynllunio'n ofalus.

Lle mae'r addysgu'n dda, darperir yn ofalus ac effeithiol ar gyfer disgyblion o oed a galluoedd gwahanol. Lle mae'n ddigonol, nid yw hyn mor amlwg. Lle mae'r addysgu'n dda, defnyddia'r athrawon ddulliau effeithiol o asesu yn ystod y gwersi i hybu'r dysgu. Caiff y plant a'r disgyblion adborth llafar da ar eu gwaith a chyfleoedd da i asesu eu gwaith eu hunain. Nid yw'r nodweddion hyn yn amlwg lle mae

ansawdd yr addysgu'n ddigonol. Anwastad yw ansawdd sylwadau ar waith disgyblion. Yn yr enghreifftiau gorau, caiff disgyblion arfarniad teg o'u gwaith ynghyd â chyngorion ar gyfer ei wella, ond mewn nifer o achosion nid yw'r marcio'n ddigon manwl i wella'r dysgu.

Cedwir cofnodion manwl o bortffolios o waith disgyblion unigol ynghyd â phortffolios sydd wedi eu safoni a'u cymedroli yn y pynciau craidd. Rhydd y rhain syniad da o gynnydd ar lefel ysgol a chynnydd unigolion.

Caiff rhieni a gofalwyr wybodaeth dda a chlir am gyflawniadau, lles a datblygiad eu plant.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae gan yr ysgol drefniadau da ac addas ar gyfer cynnig gofal, cymorth ac arweiniad i'r disgyblion. Mae'r drefn o hybu eu hiechyd a'u lles yn dda gydag ystod eang o weithgareddau sy'n hyrwyddo agweddau positif tuag at fyw yn iach.

Gwna'r ysgol ddefnydd effeithiol o asiantaethau allanol i gefnogi agweddau perthnasol ac i gynnig cymorth i'r disgyblion ddatblygu eu hunan hyder a hunan ddelwedd trwy'r cynllun 'Pyramid'.

Mae datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol y disgyblion yn cael ei hyrwyddo'n dda.

Mae'r ddarpariaeth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol yn yr ysgol yn dda. Caiff anghenion y disgyblion eu hadnabod yn gynnar. Mae gan yr ysgol drefn hyblyg sy'n hwyluso'r ddarpariaeth ac yn sicrhau bod anghenion y plant a'r disgyblion yn cael eu diwallu. Mae'r plant a'r disgyblion yn derbyn cefnogaeth dda trwy ddefnydd effeithiol o staff ac amrediad perthnasol o adnoddau addas. Trafodir cynnydd y plant a'r disgyblion hyn yn gyson ac mae'r targedau unigol ar eu cyfer yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

Mae'r staff yn defnyddio strategaethau effeithiol ar gyfer sicrhau darpariaeth addas ar gyfer disgyblion sydd ag anghenion addysg unigol. O ganlyniad, gwna'r disgyblion hyn gynnydd priodol.

Mae gan y darparwr bolisi priodol ac mae ganddo weithdrefnau ar gyfer diogelu.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae disgyblion o bob oed, cefndir a gallu yn gwneud cynnydd da mewn awyrgylch gartrefol a theuluol. Caiff llwyddiannau eu dathlu yn briodol. Mae'r ysgol yn sicrhau cyfleoedd da i fynegi barn a pharch at wahanol safbwyntiau. Mae'r disgyblion yn arbennig o gwrtais tuag at ei gilydd ac oedolion. Cydweitha'r ysgol yn agos ac effeithiol ag asiantaethau arbenigol allanol yn ôl yr angen. Mae cyfle cyfartal ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol. Ni wahaniaethir mewn unrhyw ffordd ar sail rhyw, tras ethnig nac anabledd corfforol. Mae polisïau perthnasol cyfredol yn gosod canllawiau clir i waith yr ysgol.

Gwneir defnydd da o adeilad a thir eang yr ysgol. Mae adnoddau priodol i addysgu holl byncia'r cwricwlwm. Mae arddangosfeydd lliwgar, perthnasol ac ysgogol ym mhob dosbarth. Cedwir yr adeilad a'i libart yn lân a thaclus. Mae defnydd helaeth o gyfleusterau'r ysgol gan y gymuned tu allan i oriau ysgol. Mae'r ysgol a'r awdurdod lleol yn ymwybodol o'r problemau a achosa mynedfa'r ysgol, ond heb lwyddo i ddatrys y sefyllfa hyd yma.

| **Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Da** |
|---|---|

**Arweinyddiaeth: Da**

Mae'r pennaeth a'r corff llywodraethol yn cynnig arweiniad cadarn ac mae ganddynt ddisgwyliadau uchel. Mae cynlluniau strategol yr ysgol yn cael effaith gadarnhaol ar safonau, llês a darpariaeth ar draws yr ysgol.

Mae'r staff yn adnabod yr ysgol yn dda ac yn sicrhau bod gweledigaeth ar gyfer y dyfodol yn cael ei gweithredu yn effeithiol yn ôl y cynllun datblygu ysgol a'r cyfeiriad strategol a gaiff ei lunio ar ei chyfer.

Mae'r corff llywodraethol yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau ac wedi datblygu ei rôl i fonitro perfformiadau. Maent yn herio'r ysgol yn effeithiol fel cyfaill arfarniadol.

Mae'r holl staff yn gweithredu egwyddorion cytûn o ran addysg a lles disgyblion; mae'r ysgol yn manteisio ar arbenigeddau staff er mwyn arwain a datblygu pynciau. Mae cyfrifoldebau pynciol wedi eu rhannu ac mae swydd ddisgrifiadau cyfredol a chlir gan bob aelod o'r staff.

Mae trefn flynyddol rheoli perfformiad yn caniatáu i'r athrawon a'r cymorthyddion fesur y cynnydd y maent wedi ei wneud ers yr arfarniad blaenorol ac i adnabod eu hanghenion pellach. Mae cyfarfodydd wythnosol ar gyfer staff yn canolbwyntio'n briodol ar ddeilliannau hunan arfarnu a materion gwella'r ysgol. Mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at godi safonau ac at adnabod anghenion disgyblion unigol.

Mae cynlluniau rheolaethol a chwricwlaidd yr ysgol yn rhoi ystyriaeth briodol i flaenoriaethau cenedlaethol a lleol ac yn eu cynnwys yn glir a pherthnasol; mae gan yr ysgol strategaethau priodol i'w gwireddu.

**Gwella ansawdd: Da**

Mae'r adroddiad hunan arfarnu yn ddogfen ddefnyddiol, ac yn nodi'n glir yr agweddau sy'n gryfderau a'r mannau sydd angen eu datblygu ymhellach.

Mae gan yr ysgol drefniadau pendant ar gyfer hunanarfarnu sy'n cynnwys ymweliadau â dosbarthiadau, gwirio gwaith a dehongli data. Mae hyn yn sicrhau bod tystiolaeth uniongyrchol yn cael ei chasglu a'i defnyddio'n effeithiol ar gyfer arfarnu safonau a darpariaeth ar draws yr ysgol.

Mae cysylltiadau agos rhwng y meysydd sydd angen eu gwella fel y nodir yn yr adroddiad hunanarfarnu a chynllun datblygu'r ysgol ac yn cynnig canllawiau ar gyfer eu gwireddu.

Cyfranna'r staff yn effeithiol i'r drefn o hunanarfarnu ac mae ganddynt gyfrifoldebau penodol am agweddau o'r adroddiad. Mae'r ysgol yn ystyried cyfraniadau llywodraethwyr, rhieni a disgyblion er mwyn ffurfio barn gyfansawdd sy'n cyfrannu tuag at adnabod blaenoriaethau ar gyfer cynllunio a sicrhau gwelliant.

Mae'r staff yn mynychu cyrsiau hyfforddiant ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar ddarpariaeth y Cyfnod Sylfaen ac ar safonau llafar ac ysgrifennu yn y ddwy iaith.

Mae'r ysgol wedi creu cymuned ddysgu broffesiynol i geisio gwella safonau llafar. Mae'r ysgol eto i arfarnu llwyddiant ac effaith y gwaith hwn er bod tystiolaeth anffurfiol bod safonau yn codi. Ar hyn o bryd, nid yw'r ysgol yn gwneud digon i hyrwyddo arfer orau ymhlith ei staff ei hun a chydag ysgolion eraill.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae partneriaethau gyda rhieni, y gymuned ac ysgolion lleol eraill yn gryf ac yn cyfrannu'n effeithiol at wireddu nodau'r ysgol ac yn hybu safonau pynciol. Mae'r ysgol yn chwarae rhan flaenllaw o fewn y gymuned leol. Mae disgyblion yn ymweld â gwahanol fannau o fewn y pentref a'r ardal leol yn dymhorol. Mae hyn oll yn gwneud cyfraniad cadarnhaol at gyfoethogi eu profiadau dysgu a'u hymwybyddiaeth o'u cynefin.

Mae cyswllt agos iawn gyda'r cylch meithrin a'r cylch Ti a Fi a gynhelir ar dir yr ysgol. Mae hwn yn hwyluso trefniadau derbyn plant i'r ysgol ei hun. Yn yr un modd, mae trefniadau trosglwyddo disgyblion i'r ysgol uwchradd leol yn paratoi'r disgyblion hŷn yn dda ar gyfer y cam nesaf yn eu haddysg. Mae'r cyswllt gyda'r ysgol uwchradd yn sicrhau dilyniant o ran safonau pynciol a threfniadau sy'n hyrwyddo lles a ffitrwydd y disgyblion.

Mae'r ysgol yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion cynradd eraill yr ardal ynghyd â'r ysgol uwchradd leol er mwyn safoni asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2 yn y pynciau craidd.

Mae cysylltiadau cadarn gyda swyddogion yr awdurdod a'r cwmni ymgynghorol lleol. O ganlyniad, caiff yr ysgol ei chefnogi a'i herio i godi safonau yn effeithiol.

**Rheoli adnoddau: Da**

Caiff staffio ac adnoddau, gan gynnwys adnoddau ariannol, eu rheoli a'u defnyddio'n effeithiol i gefnogi ac i wella'r dysgu. Mae'r ysgol yn defnyddio staff addysgu a chymorthyddion yn dda ac mae ganddynt y wybodaeth a'r arbenigedd i ymdrin â phob agwedd o'r cwricwlwm. Mae'r ysgol yn cynllunio ei defnydd a'i phryniant o adnoddau'n ofalus. Ar adegau, manteisia'n dda ar adnoddau ac adnoddau dynol a materol y tu allan i'r ysgol. Mae penderfyniadau gwariant yr ysgol yn cysylltu'n dda â blaenoriaethau ei chynllun datblygu ac anghenion cyfredol. Mae'r ysgol yn rhoi gwerth da am arian gan fod ei deilliannau, o ran safonau a lles, a'i darpariaeth yn dda.

## Atodiad 1

**Sylwadau ar ddata perfformiad**

Gan fod y nifer o ddisgyblion ym mhob blwyddyn ysgol yn gymharol fach, mae angen gofal wrth ddehongli deilliannau asesiadau diwedd cyfnod allweddol 1 a chyfnod allweddol 2. Yn ogystal, mae nifer y disgyblion yn amrywio o flwyddyn i flwyddyn ac mae'r cydbwysedd rhwng bechgyn a merched yn anwastad.

Nid oedd deilliannau diwedd cyfnod allweddol 1 ar gyfer 2009 cystal rhai 2008,2010 a 2011. Yr un modd, nid oedd deilliannau diwedd cyfnod allweddol 2 ar gyfer 2008 cystal â rhai 2009, 2010 a 2011.

Serch hynny, mae deilliannau'r ysgol hon rhwng 2008 a 2011 yn gyffredinol dda yn y ddau gyfnod allweddol pan gânt eu cymharu gyda chanlyniadau asesiadau ysgolion tebyg o safbwynt canran y disgyblion sydd â hawl i ginio am ddim.

Yn 2008, 2010 a 2011 roedd deilliannau asesiadau diwedd cyfnod allweddol 1 yn gosod yr ysgol naill ai ymhlith chwarter uchaf neu hanner uchaf ysgolion tebyg o safbwynt canran y disgyblion â hawl i bryd am ddim. Roedd yr ysgol ymhlith chwarter uchaf ysgolion o safbwynt canran y plant yn cyflawni'r dangosydd pynciau craidd cyfnod allweddol 1(sef yn cyflawni lefel 2 neu well mewn cyfuniad o Gymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth) yn 2008, 2010 a 2011.

Yr un modd, roedd deilliannau asesiadau diwedd cyfnod allweddol 2 rhwng 2009 a 2011 yn gosod yr ysgol ymhlith chwarter uchaf ysgolion tebyg o safbwynt canran y disgyblion sy'n cyflawni dangosydd pynciau craidd cyfnod allweddol 2 (sef yn cyflawni lefel 4 neu well mewn cyfuniad o naill ai Cymraeg neu Saesneg, mathemateg a gwyddoniaeth). Roedd canlyniadau asesiadau Saesneg, Cymraeg a mathemateg hefyd yn gosod yr ysgol ymhlith chwarter uchaf ysgolion tebyg dros yr un cyfnod. Roedd deilliannau mathemateg cystal â rhai chwarter uchaf ysgolion tebyg yn 2009 a 2011 a hanner uchaf ysgolion tebyg yn 2010.

Mae deilliannau'r ysgol ar ddiwedd y ddau gyfnod allweddol yn cymharu'n ffarfiol iawn efo deilliannau diwedd cyfnod allweddol ysgolion sydd yn perthyn i'r un 'teulu'.

Er nad oedd deilliannau cyfnod allweddol 1 cystal â chyfartaledd deilliannau'r teulu yn 2009, roedd deilliannau'r ysgol ar gyfer 2008, 2010 a 2011 yn uwch na chyfartaledd y teulu ar gyfer y Gymraeg, mathemateg, gwyddoniaeth a'r dangosydd pynciau craidd.

Er nad oedd deilliannau cyfnod allweddol 2 ar gyfer gwyddoniaeth a'r dangosydd pynciau craidd cystal â chyfartaledd canlyniadau'r teulu yn 2008, roedd y deilliannau ar gyfer y Gymraeg, Saesneg a mathemateg yn uwch na chyfartaleddau'r teulu y flwyddyn honno. Rhwng 2009 a 2011, roedd deilliannau ar gyfer yr holl ddangosyddion uwchlaw cyfartaledd y teulu.

Mae deilliannau asesiadau athrawon ar gyfer y medrau unigol yn y ddau gyfnod allweddol ar gyfer 2010 a 2011 yn awgrymu bod y disgyblion yn cyflawni'n well na

chyfartaledd ysgolion yn yr un teulu ar gyfer llefaredd, darllen ac ysgrifennu yn y Gymraeg yng nghyfnod allweddol 1 ac yn y Gymraeg a'r Saesneg yng nghyfnod allweddol 2. Mae deilliannau ar gyfer y cyfuniad o ddarllen, ysgrifennu (Cymraeg a Saesneg) a mathemateg yng nghyfnod allweddol 2 hefyd yn uwch na chyfartaledd y teulu.

Mae canran y disgyblion sy'n cyflawni un lefel yn uwch na'r lefel disgwyliedig, (hynny yw lefel 3 yng nghyfnod allweddol 1 a lefel 5 yng nghyfnod allweddol 2) yn aml yn uwch na chyfartaledd y teulu. Mae hyn yn wir am y Gymraeg a mathemateg yng nghyfnod allweddol 1 rhwng 2008 a 2011 ac am wyddoniaeth rhwng 2008 a 2010. Er mai dim ond un disgybl a gyflawnodd lefel 5 – a hynny mewn un o'r pynciau craidd, sef mathemateg – ar ddiwedd cyfnod allweddol 2 yn 2011, roedd canran y disgyblion yn ennill lefel 5 mewn Saesneg, Cymraeg, mathemateg a gwyddoniaeth yn yr ysgol hon yn arwyddocaol uwch na chyfartaledd disgyblion ysgolion yn yr un teulu yn 2009 a 2010.

Yn gyffredinol, mae bechgyn yn cyflawni cystal â merched ac mae eu cyflawniad yn aml yn well na chyfartaledd cyflawniad bechgyn mewn ysgolion sy'n perthyn i'r un teulu.

Nid yw disgyblion sydd yn derbyn pryd am ddim yn cyflawni llawn cystal â disgyblion sy'n talu am eu prydau.

Mae lefelau presenoldeb yn dda ac yn cymharu'n ffafriol iawn â chanrannau presenoldeb ysgolion tebyg.

## Atodiad 2

### Adroddiad boddhad rhanddeiliaid

### Ymateb i holiaduron y rhieni a gofalwyr

Cafwyd 29 ymateb i holiadur y rhieni neu ofalwyr. Yr oedd pob ymateb yn cytuno â 14 o'r 19 datganiad ynddo. 'Roedd yr holl rieni'n fodlon â'r ysgol yn gyffredinol, ac yn credu ei bod yn cael ei rhedeg yn dda. Roeddent oll o'r farn bod eu plant yn hoffi'r ysgol, ac yn gwneud cynnydd da yno. Roeddent yn credu bod y staff yn trin pob plentyn yn deg, bod eu plant yn cael eu hannog i fod yn iach a'u bod yn ddiogel yn yr ysgol. Roedd bron bob rhiant o'r farn bod y plant yn ymddwyn yn dda, eu bod yn deall trefn yr ysgol ar gyfer delio â chwynion a bod yr ysgol yn darparu amrywiaeth dda o weithgareddau gan gynnwys teithiau. Roedd llawer yn credu bod y gwaith cartref yn fuddiol ac yn fodlon gyda'r modd oedd yr ysgol yn paratoi eu plant ar gyfer symud i'r ysgol uwchradd.

### Ymateb i holiaduron y dysgwyr

Cwblhaodd 41 o blant yr holiadur. Roedd yr holl blant yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol, yn credu bod llawer o gyfleoedd iddynt gymryd rhan mewn ymarfer corff yn rheolaidd, ac yn dweud bod yr ysgol yn eu dysgu sut i aros yn iach. Roeddent oll yn credu bod yr athrawon ac oedolion eraill yn yr ysgol yn eu helpu i ddysgu ac i wneud cynnydd. Roedd bron bob plentyn yn credu bod yr ysgol yn delio'n dda 'ag unrhyw fwlio, a'i fod yn gwneud yn dda yn yr ysgol. Roedd bron bob disgybl hefyd yn credu bod gwaith cartref yn help iddo ddeall a gwella ei waith yn yr ysgol, ac yn gwybod at bwy i droi os oedd yn gweld y gwaith yn anodd. Roedd bron bob disgybl o'r farn bod gan yr ysgol ddigon o lyfrau, offer a chyfrifiaduron i ganiatáu iddo wneud ei waith. Roedd llawer o'r disgyblion yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda yn ystod amser cinio a'r egwyl; roedd llawer yn credu bod plant eraill yn ymddwyn yn dda yn y dosbarth a'u bod yn gallu gwneud eu gwaith o'r herwydd. Roedd ychydig, fodd, bynnag, yn ansicr efo pwy y dylai siarad os oeddynt yn poeni neu'n gofidio.

## Atodiad 3

**Y tîm arolygu**

| | |
|---|---|
| Gareth Wyn Roberts | Arolygydd Cofnodol |
| Glyn Griffiths | Arolygydd Tîm |
| Richard John Roberts | Arolygydd Lleyg |
| Emyr Lyn John | Arolygydd Cymheiriaid |
| Henry David Jones (Pennaeth) | Enwebai'r Ysgol |

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.gov.uk)

O dan Reoliadau Safonau Ysgolion Annibynnol (Cymru) 2003, rhaid i'r ysgol ddarparu copïau o'r adroddiad i holl rieni'r ysgol. Lle mae disgybl yn cael ei leoli yno gan awdurdod lleol, dylai'r ysgol anfon copi o'r adroddiad at bob awdurdod perthnasol. Os yw ar gael, mae'r adroddiad data i'w weld ar ein gwefan ochr yn ochr â'r adroddiad hwn.

**Grwpiau blwyddyn a chyfnodau allweddol**

Mae ysgolion yn defnyddio system gyffredin o rifo grwpiau blwyddyn o ddechrau addysg ysgol orfodol i 18 oed. Mae'r system hon yn pwysleisio pwysigrwydd parhad ac yn hwyluso cyfathrebu ymhlith ysgolion, cyrff llywodraethol, rhieni ac AALlau.

Mae'r term 'Derbyn' (CSD) yn cyfeirio at grŵp blwyddyn o ddisgyblion mewn ysgol gynradd sy'n cyrraedd 5 oed yn ystod y flwyddyn academaidd. Mae CS Blwyddyn 1 yn cyfeirio at y grŵp blwyddyn o ddisgyblion sy'n cyrraedd 6 oed yn ystod y flwyddyn academaidd, ac ati. Blwyddyn 13 yw'r grŵp o fyfyrwyr sy'n cyrraedd 18 oed yn ystod y flwyddyn academaidd.

Cyfnod cynradd:

| Blwyddyn | CSD | CSB1 | CSB2 | B3 | B4 | B5 | B6 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 4-5 | 5-6 | 6-7 | 7-8 | 8-9 | 9-10 | 10-11 |

Cyfnod uwchradd:

| Blwyddyn | B7 | B8 | B9 | B10 | B11 | B12 | B13 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Oedrannau | 11-12 | 12-13 | 13-14 | 14-15 | 15-16 | 16-17 | 17-18 |

Mae'r pedwar cyfnod allweddol yn cwmpasu'r grwpiau blwyddyn canlynol:

| | |
|---|---|
| Cyfnod Sylfaen | Dosbarth Derbyn, Blwyddyn 1 a Blwyddyn 2 |
| Cyfnod allweddol 2 | Blwyddyn 3 i Flwyddyn 6 |
| Cyfnod allweddol 3 | Blwyddyn 7 i Flwyddyn 9 |
| Cyfnod allweddol 4 | Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 |

## Rhestr termau – Cynradd

**Cwricwlwm Cenedlaethol**

**Lefelau disgwyliedig y Cwricwlwm Cenedlaethol**

- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 1, yn saith oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 2 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 3.
- Erbyn diwedd cyfnod allweddol 2, yn un ar ddeg oed, disgwylir i ddysgwyr gyrraedd lefel 4 a disgwylir i'r rhai mwy galluog gyrraedd lefel 5.

**Y dangosydd pwnc craidd ym mhob cyfnod allweddol**

Mae'r dangosydd pwnc craidd yn ymwneud â'r perfformiad disgwyliedig mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf, mathemateg a gwyddoniaeth, sef pynciau craidd y Cwricwlwm Cenedlaethol.  Rhaid i ddysgwyr gyrraedd y lefel ddisgwyliedig o leiaf mewn Cymraeg neu Saesneg iaith gyntaf ynghyd â mathemateg a gwyddoniaeth er mwyn cyflawni'r dangosydd pwnc craidd.

**Setiau Data Craidd Cymru Gyfan**

Gall ysgolion ac awdurdodau lleol gyfeirio at berfformiad o gymharu â'u teulu o ysgolion.  Crëwyd y teuluoedd hyn o ysgolion i alluogi ysgolion gymharu'u perfformiad ag ysgolion tebyg ar hyd a lled Cymru.  Mae teuluoedd yn cynnwys ysgolion â chyfrannau tebyg o ddisgyblion â hawl i gael prydau ysgol am ddim, disgyblion sy'n byw yn 20% o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, disgyblion sydd ag anghenion addysgol arbennig yn cael cymorth drwy'r cynllun gweithredu gan yr ysgol a mwy neu â datganiad, a disgyblion sy'n llai na chymwys o ran dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol.